# 7.0 AMGYLCHEDD GLÂN A LLYGREDD ISEL

| |
|---|
| Mae cyfanswm y tir "di-gyffwrdd" yn yr AHNE wedi gostwng o 85% i 71% ers 1997 |
| Mae traffig wedi cynyddu ar y A499 ers 1997 gyda sgil effeithiau amgylcheddol cysylltiol |
| Codwyd nifer o strwythurau (mastiau a thyrbinau gwynt) yn ddiweddar. |
| Mae llawer o oleuadau ffordd wedi eu cyfnewid i rai LED yn 2016/7 |

## 7.1 Cyflwyniad

7.1.1 Mae tangnefedd ("tranquility") yn nodwedd sy'n cael ei adnabod a'i werthfawrogi fwy-fwy y dyddiau hyn. Nid yw'n hawdd mesur tangnefedd ond mae'n gyfuniad o dawelwch rhag sŵn peiriannau a diwydiant, ychydig o symudiadau cerbydol ac ymyrraeth arall ac ychydig o olau i darfu ar dywyllwch nos. Felly cyfuniad o wahanol ffactorau sy'n creu awyrgylch o dangnefedd ac erbyn hyn mae ardaloedd o'r fath yn eithaf prin drwy'r DU, er fod rhannau eithaf eang yn yr Alban.

7.1.2 Mae tawelwch neu dangnefedd wedi ei adnabod fel un o rinweddau AHNE Llŷn yn ystod cyfnod paratoi y Cynllun Rheoli gwreiddiol yn 2004/5. Yn sicr mae natur ymylol a phellennig yr ardal yn rhannol rhesymol am hyn sydd wedi golygu nad oes datblygiadau diwydiannol na than adeiledd sylweddol ac ychydig o ymyrraeth gan draffig a pheiriannau. Hefyd mae'r boblogaeth yn weddol isel – tua 6,000 – o ystyried arwynebedd yr ardal.

7.1.3 Yn ogystal â hyn mae safon amgylcheddol y pridd, aer, dŵr a dŵr y môr ar y cyfan yn uchel yn Llŷn a lefelau llygredd yn isel. Mae gan yr ardal ddelwedd o leoliad gydag amgylchedd glân – sy'n fanteisiol o ran pobl leol ac i ddenu ymwelwyr. Er hynny mae' n bwysig cynnal, ac os yn bosibl, gwella cyflwr yr amgylchedd leol trwy gyfyngu ar weithgareddau sy'n creu llygredd ac annog gweithgareddau di-lygredd –e.e. dulliau amgen o deithio.

7.1.4 At bwrpas Cynllun Rheoli yr AHNE fe osodwyd yr isod fel Prif Nod o ran Tawelwch a Llygredd isel:

**Prif Nod**

| |
|---|
| **CYNNAL A GWELLA LEFELAU PRESENNOL O LENDID, TAWELWCH A DIOGELWCH ER SICRHAU FOD TRIGOLION AC YMWELWYR YN MWYNHAU GWELL LLES AC ANSAWDD BYWYD.** |

**<u>Nodweddion Arbennig</u>**

## 7.2 Aer di-lygredd

7.2.1 Mae'r aer ym Mhen Llŷn yn lân a di-lygredd. Mae gan yr ardal ddelwedd o un lle gellir mwynhau bod allan a mwynhau awyr iach cefn gwlad ac arfordir. Nid oes unrhyw ddiwydiannau sylweddol, gweithfeydd mawr na phwerdai yn yr ardal. Er nad oes gwybodaeth benodol ar gyfer yr ardal hon ar gael, roedd Adroddiad Cyflwr Amgylchedd Gwynedd (2004) yn cynnwys gwybodaeth ar

gyfer Sir Gwynedd ac yn cadarnhau fod lefelau llygredd aer yn isel neu isel iawn (y pedwar prif fath o lygredd aer yw Sylffwr Deuocsid, Gronynnau, Ocsidau Nitrogen a Charbon Monocsid). Gan nad oes unrhyw ddatblygiad sylweddol wedi bod er hynny tybir fod safon yr aer yn parhau yn dda ac fe allai fod gwelliant yn sgil cyfyngiadau pellach ar allyriant (“emissions”) cerbydau.

7.2.2 Yn gyffredinol ymddengys fod lefelau llygredd yn parhau i ostwng ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag mae llygredd yn parhau i gael ei greu a’i ollwng i’r amgylchedd trwy amryw o wahanol ffynonellau gan amharu ar y tir, aer a dŵr ac effeithio ar bobl, cynefinoedd a rhywogaethau. Gall mesurau a phrosiectau lleol ar raddfa fach gynorthwyo i leihau allyriannau a llygredd aer.

## 7.3 Dŵr Glân

7.3.1 Ar y cyfan mae safon y dŵr yn dda yn yr ardal. Y prif faterion sy’n effeithio safon dŵr ardaloedd gwledig fel Llŷn yw llygreddau megis glaw asid, gwrtaith artiffisial a llifiad slyri. Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n gyfrifol am gynnal safon dŵr croyw a dŵr arfordirol yng Nghymru.

7.3.2 **Dŵr Croyw** - Mae safon dŵr afonydd a nentydd yr ardal yn dda ond mae system gofnodi Cyfoeth Naturiol Cymru yn dangos problemau weithiau gyda dŵr afonydd yn Llŷn, yn bennaf gan lygredd yn llifo i afonydd. Y prif broblemau yw:

- Llygredd yn llifo oddi ar dir (tir amaethyddol gan fwyaf);
- Gorlifiad o wrtaith amaethyddol a phlaladdwyr, carthion, dŵr o ddiwydiant;
- Glaw asid.

7.3.3 Mae llawer o wybodaeth am safon dŵr afonydd Gwynedd wedi ei gynnwys ym Mhecyn Gwybodaeth Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd (2008). Fodd bynnag, dim ond un afon oddi mewn yr AHNE sydd yn ddigon mawr i’w monitro sef Afon Soch. Mae’r afon hon yn sgorio yn uchel iawn o ran bioleg a chemeg tra mae lefelau llygreddau nitradau a ffosffad yn weddol isel/cymedrol. Nid oes methiannau sylweddol o ran safon dŵr yr afon wedi ei nodi yn Asesiad Safon Cyffredinol Afonydd (Asiantaeth yr Amgylchedd). Hyd yma nid oes ardal dan fygythiad o Nitradau (“Nitrate Vulnerable Zone”) yn Llŷn.

7.3.4 **Dŵr Yfed** - Dŵr Cymru sy’n gyfrifol am sicrhau darpariaeth lân a dibynadwy o ddŵr yfed. O ran cyflenwad lleol mae Llŷn wedi ei osod mewn rhanbarth Llŷn-Harlech gan Dŵr Cymru. Uwchraddiwyd y system trin dŵr ar gyfer yr ardal gan Dŵr Cymru yn ddiweddar (agorwyd y gwaith trin newydd yn 2017).

7.3.5 **Dŵr Ymdrochi** – Mae safon traethau Llŷn yn cael ei adlewyrchu gan y nifer o draethau sydd wedi eu gwobrwyo gyda gwobrau traeth cenedlaethol ac Ewropeaidd. Maent ymysg y glanaf drwy’r Deyrnas Unedig, gyda safon uchel o ddŵr ymdrochi a chyfleusterau da ger llawer ohonynt.

7.3.6 Mae'r gwobrau traethau Ewropeaidd yn cynnwys y Faner Las, Gwobr Arfordir Gwyrdd ac Gwobr Glan Môr yn seiliedig ar safon y dŵr, cyfleusterau a rheolaeth. Yn 2017 derbyniodd traethau Aberdaron, Abersoch a Pwllheli y statws Faner Las a Gwobr Glan Môr ta cafodd Porth Neigwl y wobr Arfordir Gwyrdd.

7.3.7 Ar lefel Genedlaethol mae Adroddiadau yn cadarnhau fod safon dŵr ymdrochi yng Nghymru yn dda iawn o ganlyniad i wella mewn gwaredu a thrin carthion. Ar adegau mae glaw yn creu llawer o all-lifiad o dir amaethyddol a pheth o'r dŵr hynny wedi ei lygru. Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Morol yn rhagweld parhad yn y problemau hyn oherwydd newid hinsawdd ac yn gobeithio y bydd cynlluniau gan Dŵr Cymru, Llywodraeth Cymru a Moroedd Gwyrdd yn fodd i wella'r sefyllfa. Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Morol yn argymell newidiadau mewn ffermio, gwella systemau carthffosiaeth a monitro cyson.

## 7.4 Safon y Pridd

7.4.1 Ardal amaethyddol yw Llŷn ac mae'r tir wedi ei ffermio dros genedlaethau. Mae priddoedd o safon da ar y tiroedd isel (2, 3a a 3b) sydd yn adnodd cenedlaethol gwerthfawr ar gyfer magu stoc a thyfu cnydau yn ogystal â chynnal bywyd gwyllt. Hefyd oherwydd absenoldeb diwydiannau a gweithfeydd mae lefelau llygredd y pridd yn isel yn yr ardal er fod rhai safleoedd unigol lle ceir llygredd yn dilyn gwaith mwyngloddio. Er bod nifer o safleoedd tirlenwi wedi bod yn yr ardal yn hanesyddol erbyn 2009 doedd dim un safle o'r math yma oddi mewn yr AHNE.

7.4.2 Bellach mae adnabyddiaeth llawer gwell o'r angen i warchod y tir a'r pridd. Mae deddfau a systemau wedi eu mabwysiadu ar gyfer asesu safon tir, adennill tir llygredig ac atal llygru pellach. Y nod yn Llŷn yw cynnal safon uchel y tir a'r pridd ac mae gan rhesymoli defnydd o wrteithiau a chemegolion ran i'w chwarae yn hyn.

## 7.5 Tawelwch a Llonyddwch

7.5.1 Mae Pen Llŷn yn lle o dawelwch a llonyddwch oherwydd natur wledig, arfordirol yr ardal ac absenoldeb diwydiant a gweithfeydd mawr. Cadarnhawyd hynny mewn adroddiad a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn 1997 i asesu ardaloedd tawel yng Nghymru. Roedd yr astudiaeth yn ystyried y prif gategorïau o ddatblygiad sy'n creu cynnwrf fel traffig, trefi a phentrefi, strwythurau trydanol, rheilffyrdd a meysydd awyr. Hefyd cofnodwyd lleoliad rhai datblygiadau penodol sydd yn cael effaith ar lonyddwch megis chwareli, mastiau, ffermydd gwynt, saethu colomennod clai, badau dŵr personol a chychod rasio.

7.5.2 Yn yr Adroddiad roedd rhan helaeth o Lŷn wedi ei diffinio fel Ardal Dawel neu haen C (lefel isel o gynnwrf). Dangosodd yr astudiaeth fod rhai gweithgareddau swnllyd (gweithgareddau morol yn bennaf) ar yr arfordir deheuol o amgylch Abersoch a Llanbedrog.

7.5.3 Yn 2009 bu i Gyngor Cefn Gwlad Cymru gomisiynu Land Use Consultants i

wneud asesiad newydd o Gymru gyfan. Ar gyfer y gwaith yma ceisiwyd dilyn y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn flaenorol er mwyn creu cymhariaeth. Mae'r Arolwg yn casglu fod tua 11,600km sgwâr o Ardal Dawel yng Nghymru (tua 55% o arwynebedd y wlad) ond fod gostyngiad o 1,500 km sgwâr (tua 6% o holl arwynebedd Cymru). Gweler map Arolwg Llonyddwch Cymru 2009 sydd yn crynhoi casgliadau'r astudiaeth. Gweler www.stats.wales.gov.uk am fwy o fanylion. Mae bwriad ar y gweill gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ailasesu'r sefyllfa yn 2018/9.

## 7.6 Awyr Dywyll yn y Nos

7.6.1 Erbyn hyn mae golau nos sylweddol yn cael ei adnabod fel math o lygredd. Nid yn unig fod effaith uniongyrchol y golau yn amharu ar yr awyr dywyll naturiol ond hefyd mae golau artiffisial yn amharu ar ecosystemau sydd yn dylanwadu ar iechyd pobl a bywyd adar. Fel y disgwyl mae lefelau uchel o olau nos mewn ardaloedd trefol tra mae lefelau isel mewn ardaloedd gwledig fel Llŷn. Bellach sylweddolwyd fod ardaloedd gydag ychydig o olau nos yn prinhau trwy'r DU.

7.6.2 Mater arall yw'r trydan a ddefnyddir er mwyn darparu'r goleuadau. Mae cyfleon i wneud arbedion ariannol ac amgylcheddol trwy leihau'r defnydd o oleuadau a hefyd newid i lampau a golau LED ac ardrawiad isel. Hefyd, mae rhai Awdurdodau Lleol wedi cyflwyno cynlluniau i ddiffodd rhai goleuadau stryd yn ystod oriau'r nos er gwneud arbedion ariannol am mae hynny wedi bod o fudd amgylcheddol yn ogystal.

7.6.3 Fel y nodwyd yn y Cynllun Rheoli gwreiddiol mae rhannau sylweddol o'r AHNE yn parhau heb lygredd goleuo. Wrth gwrs mae goleuadau yn y pentref a'r trefi ac ar rai o'r ffyrdd ond mae ardaloedd eang heb unrhyw olau o gwbl. Mae llifoleuadau yn cael effaith sylweddol ar dywyllwch nos ac yn bresennol Nghlwb Chwaraeon Bodegroes ac Ysgol Botwnnog – mae'r ddau safle oddi allan yr AHNE ond yn weladwy o gryn bellter i ffwrdd pan ynghyn.

7.6.4 Wrth astudio Map Ardaloedd Tawel Cymru 2009 fe ellir cymharu'r sefyllfa yn 1997 a 2009. Yn gyffredinol nodir bod gostyngiad o 6% neu 1,500 km2 o ardal llonydd yng Nghymru rhwng y ddau arolwg. Yn achos AHNE Llŷn erbyn 2009 mae llonyddwch cyffredinol yr ardal yn awr yn dangos pocedi o ardaloedd llai llonydd o gwmpas Llithfaen, Tudweiliog, Rhiw, Llanengan, a llethrau Garn Fadryn. Nid yw'n glir a yw'r pocedi o ddirywiad sydd wedi eu hadnabod yn ganlyniad i ddatblygiadau unigol ynteu yn rhan o batrwm mwy tymor hir. Nid oes waith wedi ei wneud i weld os oes newid pellach yn y sefyllfa ers 2009 ond mae gwaith pellach wedi ei raglennu gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2018/9.

**<u>Materion Allweddol</u>**

## 7.7 Trafnidiaeth a Moduron

7.7.1 Oherwydd natur wledig Llŷn, mae'r mwyafrif o'r trigolion yn ddibynnol ar foduron at ddefnydd pob dydd. Hefyd, gwelir cynnydd sylweddol mewn traffig

yn ystod tymhorau gwyliau yn y lefelau traffig wrth i nifer fawr o ymwelwyr deithio yn eu ceir ac mae hyn yn creu tagfeydd mewn rhai mannau – yn fwyaf amlwg Abersoch a Phwllheli. Mae cynnydd mewn traffig a thagfeydd yn cynyddu allyriadau a llygredd awyr.

7.7.2 Buasai lleihau teithiau mewn moduron a chynnydd mewn teithio trwy ddulliau cynaliadwy yn llesol o ran lleihau llygredd ac fe all hyn greu buddion o ran iechyd. Credir felly fod cyfleon i hyrwyddo dulliau cynaliadwy o deithio trwy arddangos amserlenni a gwybodaeth berthnasol arall. Mae Rheilffordd y Cambrian a Bws Arfordir Llŷn yn wasanaethau hwylus ac mae angen cydweithio i hyrwyddo a marchnata gwasanaethau o'r fath.

7.7.3 Gall beicio hefyd gynnig cyfleon i leihau teithio mewn cerbydau a bod yn llesol o ran iechyd. I gyd- fynd gyda'r nod o hyrwyddo beicio yn yr ardal mae'r Gwasanaeth AHNE wedi lansio taflen wybodaeth newydd yn ddiweddar am Gylchdeithiau Beics Llŷn. Mae'n bwysig datblygu cyfleon pellach i feicio yn yr ardal drwy ddarparu llwybrau addas a hyrwyddo'r cyfleoedd hynny.

7.7.4 Hefyd mae cyfleon i hyrwyddo'r defnydd o lwybrau lleol i leihau teithiau car, yn enwedig teithiau byr yng nghyffiniau mannau gwyliau poblogaidd.

## 7.8 Sbwriel

7.8.1 Mae sbwriel ar lwybrau a ger safleoedd picnic a meysydd parcio yn broblem ac yn niweidiol i ddelwedd yr ardal fel un lân a thaclus. Hyd yn hyn nid yw hon yn broblem fawr ond mae cynnydd bychan mewn achosion ac fe all toriadau ariannol olygu llai o finiau a wardeniaid i oruchwylio.

7.8.2 Mae baw cŵn hefyd yn fater o bryder ac ymddengys fod hyn ar gynnydd gan fod mwy o bobol yn cadw anifeiliaid anwes. Yn anffodus mae tueddiad diweddar hefyd gan rai pobol i adael bagiau baw ci ar ochor llwybrau yn hytrach na'u rhoi yn y biniau pwrpasol. Gallai gosod rhagor o finiau mewn safleoedd amlwg leihau rhywfaint ar hyn yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am yr AHNE a'i holl nodweddion arbennig a pha mor niweidiol yw gwaredu gwastraff yn anghyfrifol. Mae prosiectau yn y gorffennol megis Trefi Taclus wedi cydweithio yn dda gydag ysgolion lleol i greu arwyddion i geisio atal problemau baw cŵn er enghraifft.

7.8.3 Gwelir llawer o sbwriel hefyd ar ein traethau, wedi ei adael gan rhai yn defnyddio'r traeth neu ei gario yn y môr. Mae lle yma i godi ymwybyddiaeth ymysg defnyddwyr cychod ac ati am pa mor bwysig yw gwaredu sbwriel yn y dull cywir. Mae Cadwch Cymru'n Daclus yn cynnal ymgyrchoedd glanhau o bryd i'w gilydd gyda gwirfoddolwyr ar draethau megis Porth Neigwl ac mae unrhyw brosiect o'r math hwn i'w annog a'i gefnogi.

7.8.4 Er nad oes tystiolaeth ffeithiol i gadarnhau mae'n ymddangos fod mwy o dipio anghyfreithlon ar ochor ffyrdd yn ddiweddar. Eto mae cyfleon i godi ymwybyddiaeth ac addysgu. Gall gwastraff plastig o ffermydd hefyd fod yn flêr ac eto mae lle i godi ymwybyddiaeth am waredu gwastraff fferm yn fwy gofalus.

## 7.9 Llygredd Dŵr

7.9.1 Ar y cyfan mae achosion o lygredd dŵr yn isel yn yr ardal ac mae gwelliannau wedi bod mewn safon dŵr croyw, dŵr yfed a dŵr ymdrochi yn sgil deddfau, rheoliadau a gwaith trin newydd. Mae ansicrwydd am yr union sefyllfa o ran allyriadau carthffosiaeth i'r môr ac efallai fod achos dros asesu'r sefyllfa. Gall safon dŵr ymdrochi is-safonol olygu problemau mewn ceisiadau am wobrau traeth fel y Faner Las a Gwobr Arfordir Gwyrdd. Gallai diffyg cyllid fod yn broblem o ran ymgeisio am y gwobrau traethau yn y dyfodol.

7.9.2 Mae angen sicrhau safon dŵr yn cael ei fesur a'i gynnal ac fod Dŵr Cymru yn parhau i weithredu yn effeithiol yn yr ardal oddi fewn yr AHNE.

## 7.10 Gweithgareddau Hamdden ar Draethau

7.10.1 Mae dipyn o sôn wedi bod yn ystod y blynyddoedd diweddar am gychod pŵer, beiciau dŵr personol ac ati yn amharu ar eraill a'r amgylchedd o'u cwmpas. Maent yn weithgareddau swnllyd sydd yn medru amharu ar fywyd gwyllt a chreu gwrthdaro gyda defnyddwyr cychod eraill. Rai blynyddoedd yn ôl bu i Gyngor Gwynedd sefydlu system cofrestru badau dŵr personol a bu gwelliant yn sgil hynny. Hefyd mae Côd Morol Gwynedd wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar (2016) wedi ei anelu at ddefnyddwyr y môr a'u hannog i fod yn wyliadwrus o ran bywyd gwyllt morol a pheidio â tharfu ar anifeiliaid, pysgod ac adar.

## 7.11 Goleuadau yn Gysylltiedig â Datblygiadau Newydd

7.11.1 Gyda rhai datblygiadau newydd bydd golau ychwanegol yn cael ei osod er mwyn gwasanaethau'r adeilad. Yn achos tai unigol nid yw hon yn broblem fawr ond mae'n fwy arwyddocaol mewn achos datblygiadau mwy. Hefyd gall goleuadau gael eu gosod ar adeiladau masnachol neu wasanaethol newydd ac mae rhai enghreifftiau lle gwelwyd golau sylweddol yn cael ei gyflwyno e.e. Gorsaf Dân newydd yn Nefyn. Gall amodau cynllunio roi cyfle i gyfyngu a rheoli ar oleuadau yn gysylltiedig â datblygiadau newydd.

### Polisïau

**PP 1. HYRWYDDO MENTRAU CLUDIANT CYHOEDDUS A'R DEFNYDD OHONYNT A MATHAU ERAILL O DEITHIO CYNALIADWY.**

Mae'r rhan fwyaf o gerbydau yn creu allyriannau a llygredd ac mae traffig yn cynyddu yn yr ardal yn y cyfnodau gwyliau prysur. Bydd y Gwasanaeth AHNE, mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, yn hyrwyddo cludiant cyhoeddus fel dull o deithio i'r ardal (bysiau lleol a Rheilffordd y Cambrian) ac yn yr ardal ei hun. Hefyd mae cyfleon i gynyddu dulliau eraill o deithio cynaliadwy - beicio yn arbennig – a bydd y Gwasanaeth AHNE felly yn hyrwyddo beicio fel dull o deithio yn lleol.

**PP 2. CYNNAL A GWELLA SAFON DŴR A PHRIDD YN YR ARDAL.**

Er fod safon dŵr a pridd yn uchel yn yr ardal mae'n bwysig cynnal hynny a

gwneud rhai gwelliannau lle bo'n bosibl. Anelir i gweithio gyda adrannau eraill Cyngor Gwynedd ac asiantaethau fel Dŵr Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn ogystal â pherchnogion safleoedd er cyflawni hyn. Credir hefyd y dylid ymgeisio am wobrau fel Y Faner Las/ Arfordir Gwyrdd er mwyn adlewyrchu safon uchel y dŵr a'r adnoddau mewn rhai lleoliadau.

**PP 3. CYFYNGU AR LEFELAU SŴN A GOLAU NOS YN YR AHNE A GERLLAW A HYRWYDDO'R DEFNYDD O OLAU STRYD/ ALLANOL SY'N YNNI-EFFEITHIOL AC ARDRAWIAD ISEL.**

Mae tangnefedd ac awyr dywyll yn rinweddau sy'n perthyn i AHNE Llŷn ac mae'r polisi yn anelu i gyfyngu ar ddatblygiadau fyddai yn amharu ar hynny. Ar y cyfan nid yw sŵn yn broblem ond mae goleuadau presennol a rhai o'r newydd yn medru amharu ar dywyllwch y nos. Byddid felly yn argymell amodau i reoli golau mewn cysylltiad â datblygiadau newydd a hyrwyddo eraill i asesu goleuadau presennol i weld os oes cyfleon i leihau golau neu cael rhai sy'n cael llai o ardrawiad.

**PP 4. HYRWYDDO LEFELAU GLENDID LLEOL TRWY ANNOG AILDDEFNYDDIO, AILGYLCHU A GWAREDU SBWRIEL YN GYFRIFOL.**

Er fod rhai llecynnau bach o sbwriel o dro i dro nid yw tipio anghyfreithlon yn broblem fawr yn yr ardal. Bydd y Gwasanaeth AHNE yn cydweithio gydag adrannau eraill y Cyngor ac eraill fel Cadw Cymru'n Daclus i glirio safleoedd, addysgu perchnogion am ailddefnyddio ac ailgylchu a chymryd camau gorfodaeth pan yn angenrheidiol.

**PP 5 . CODI YMWYBYDDIAETH AM EFFAITH NEGYDDOL A PHERYGLON IECHYD BAW CŴN AC ANNOG PERCHNOGION I FOD MWY CYFRIFOL.**

Yn ogystal â bod yn berygl i iechyd mae baw cŵn yn ddiflas ac yn cyfleu argraff negyddol am leoliad neu lwybr. Bwriedir cydweithio gydag Adran Iechyd y Cyhoedd a sefydliadau eraill i adnabod mannau lle mae problemau a gweithredu ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a chymryd camau gorfodaeth.